# Prosesu ceisiadau am gyfraniadau ychwanegol i gynlluniau pensiwn

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrosesu ceisiadau am gyfraniadau ychwanegol i gynlluniau pensiwn. Rhaid i chi wirio bod pob cais gan aelod wedi'i awdurdodi'n briodol, ymchwilio i unrhyw anghysondebau a'u datrys, ac yna prosesu'r ceisiadau a'r dogfennau yn unol â'r gofynion statudol a pherthnasol ar gyfer cynlluniau pensiwn. Ar ôl darparu manylion ynghylch hawliau canslo, lle bo hynny'n briodol, rhaid i chi roi gwybod i'r partïon perthnasol pan fydd yr aelod yn dewis symud ymlaen, gan ddarparu esboniad llawn a phrydlon mewn unrhyw achosion lle bernir bod cais yn annilys. Rhaid i chi hefyd gysylltu â chyflogwr yr aelod i ddechrau didyniadau, a newid cofnodion yr aelod i adlewyrchu'r opsiwn a ddewiswyd ganddynt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwirio a dilysu bod cais pob aelod wedi'i awdurdodi'n briodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Ymchwilio i unrhyw fylchau neu anghysondebau yn y cais a'u datrys, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Prosesu holl geisiadau a dogfennau'r aelodau yn unol â'r gofynion statudol a pherthnasol ar gyfer cynlluniau pensiwn
4. Darparu manylion ynghylch hawliau canslo yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Hysbysu'r bobl berthnasol pan fydd yr aelod yn dewis symud ymlaen, er mwyn i gamau priodol fedru cael eu cymryd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Darparu esboniad clir i aelodau lle bernir bod ceisiadau'n annilys, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Cysylltu â chyflogwyr i ddechrau'r didyniadau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Newid cofnodion aelodau i adlewyrchu'r opsiwn a ddewiswyd, gan ddiweddaru systemau lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr angen am sicrhau bod dilysu a gwirio wedi digwydd, a'r dulliau o wneud hynny
2. Sut mae dehongli a chymhwyso gofynion statudol, gan gynnwys contractio allan, yn dilyn cais am brynu buddion ychwanegol
3. Sut mae dilysu data cynllun o ran cyflawnder a phriodoldeb
4. Sut mae datrys unrhyw anghysondebau neu fylchau mewn gwybodaeth
5. Sut mae defnyddio dulliau cyfrifo ac arferion safonol, fel sy'n briodol
6. Sut mae nodi'r polisïau, yr arferion a'r gweithdrefnau cywir ar gyfer llofnodwyr ac awdurdodi
7. Effaith newidiadau yn amgylchiadau'r aelod a fydd yn achosi i gontract presennol gael ei amrywio neu ei ddiddymu'n gynnar
8. Y ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y polisïau, y gweithdrefnau a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf
9. Y gwahaniaeth rhwng rhoi cyngor ariannol a darparu gwybodaeth i'r aelod

## Ymddygiadau

1. Rydych yn sensitif i ddiffyg arbenigedd technegol aelodau ac yn defnyddio eich greddf a'ch profiad i'w helpu i ddeall y materion yn llawn
2. Rydych yn casglu ac yn rheoli gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon, yn foesegol a chan barchu cyfrinachedd
3. Mae gennych ddealltwriaeth glir o gwmpas a therfynau eich awdurdod i wneud penderfyniadau
4. Rydych yn nodi anghenion gwybodaeth cydweithwyr, cleientiaid ac eraill
5. Rydych yn darparu gwybodaeth briodol i'r rhai sydd ag angen amdani ac sydd â hawl i'w derbyn
6. Rydych yn cyflwyno gwybodaeth yn brydlon, yn glir, yn gryno ac yn gywir, ac mewn modd sy'n hybu dealltwriaeth
7. Rydych yn chwilio am welliannau posibl ac yn cynnig llwybrau gweithredu sy'n amserol, yn briodol ac yn gyflawnadwy
8. Rydych yn ymfalchïo yn ansawdd eich gwaith
9. Rydych yn deall anghenion a chymhellion pobl eraill
10. Rydych yn gweithio mewn modd proffesiynol, cydweithredol, gan gefnogi'ch gilydd
11. Rydych yn rhoi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith
12. Rydych yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol ar gyfer gwahanol bobl a sefyllfaoedd

FSPPSA4

Prosesu ceisiadau am gyfraniadau ychwanegol i gynlluniau pensiwn

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPPSA4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Clercod pensiynau ac yswiriant |
| **Cyfres/Set** | Gweinyddu Cynlluniau Pensiwn |
| **Geiriau Allweddol** | Gweinyddu cynlluniau pensiwn, cyfraniadau, trafodion |